# PWYLLGOR ARCHWILIO
# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 26ain Medi 2011 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y prynhawn.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D Barratt(Cadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| Y Cynghorydd D Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cynghorydd J A Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cynghorydd D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd G O Williams | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); S Forrest (Prif Gyfrifydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); L Williams (Swyddfa Archwilio Cymru); V DeZouche (KPMG); C Dingle (Rheolwr Cyllid); S Teal-Bromley (Rheolwr Cefnogi Gweithredol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cynghorydd E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| C Everett | Clerc |
| M Halstead | Pennaeth Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

Yn absenoldeb y Cynghorydd George, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd D Barratt.

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 COFNODION

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Mehefin 2011 eu cymeradwyo yn gofnod cywir. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3 ARCHWILIAD O DDATGANIADAU ARIANNOL

3.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan Victoria DeZouche, ac esboniodd mai Anthony Barrett, fel yr Archwilydd Penodedig, oedd yn gyfrifol am archwilio'r datganiadau ariannol. Roedd Ms Dezouche yn falch o gyhoeddi y bydd adroddiad archwilio diamod yn cael ei ryddhau unwaith y bydd y Llythyrau Sylwadau wedi cael eu derbyn gan yr Awdurdod. Tynnwyd sylw'r Aelodau at ddau gywiriad bach a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft fel a ganlyn:

- ailgategoreiddio buddsoddiadau tymor byr yn arian parod neu'n gyfwerth ag arian parod yn unol â'r Safonau IFRS (£2,004,000)
- ailgategoreiddio'r ddarpariaeth bensiynau yn gronfeydd wedi eu clustnodi (£165,000).

3.2 Diolchodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân i Sandra Forrest am ei holl waith yn dehongli cyfarwyddyd y Safonau IFRS, ac am ailddatgan y cyfrifon, ac ategwyd hyn gan yr Aelodau.

3.3 **PENDERFYNWYD nodi bod yr Archwilydd wedi dod i'r casgliad fod y datganiadau ariannol yn rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel ar 31 Mawrth 2011, ynghyd â'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.**

4 DATGANIAD O GYFRIFON 2010-11

4.1 Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon i'r Aelodau i'w gymeradwyo. Roedd yr Awdurdod Tân ac Achub wedi rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pwyllgor Archwilio i gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig. Nodwyd bod y Panel Gweithredol hefyd wedi cael cyfle i roi sylwadau ar y cyfrifon, ond ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

4.2 Rhoddodd Sandra Forrest gyflwyniad i'r Aelodau, ac esboniodd fod y cyfrifon wedi cael eu paratoi am y flwyddyn gyntaf yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, sef newid sylfaenol i ddull adrodd ariannol Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Dyma'r tro cyntaf hefyd i'r cyfrifon fod wedi cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a oedd yn dod yn lle'r Datganiad o Reolaeth Fewnol.

4.3 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Aelodau ym mis Mehefin ar Berfformiad Ariannol 2010-11 yn adrodd bod £627k o danwariant. Fodd bynnag, yn y broses gwbhau, penderfynwyd byddai'n ddoeth clustnodi rhai o'r costau cyfalaf yn erbyn refeniw, ac roedd hyn yn dod â'r tanwariant i lawr i £223k. Yn bennaf, roedd y newidiadau o ganlyniad i brosiect Wrecsam gam fod arian wedi cael ei wario yn edrych ar safleoedd posib nad oeddent bellach yn cael eu hystyried yn addas, ac felly ni ellir ei gategoreiddio fel gwariant cyfalaf.

4.4 Esboniodd Sandra Forrest mai'r prif newidiadau i'r cyfrifon dan y safonau newydd oedd mabwysiadu cyfrifyddu cydrannau ar gyfer gwariant cyfalaf newydd; adolygiad o brydlesau er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu categoreiddio'n gywir; asesiad o fuddiannau gweithwyr; a newidiadau i'r prif ddatganiadau yn y Datganiad o Gyfrifon. Yn lle Cyfrif Incwm a Gwariant a Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, roedd Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail BVACOP (Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau.

4.5 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa mai dyma'r ail flwyddyn yr oedd yr Awdurdod yn gallu dal cronfeydd wrth gefn, a'r balans yn y gronfa

gyffredinol wrth gefn yw £641k. Bydd y gronfa gyffredinol yn cael ei defnyddio yn erbyn unrhyw ymrwymiadau na ragwelir, er enghraifft cynnydd mewn digwyddiadau oherwydd tywydd garw, ac i ymorol am gostau pontio posib yn ymwneud â newidiadau i wasanaethau rheng flaen er mwyn cael yr arbedion angenrheidiol o ran y gyllideb.

4.6 I ateb cwestiwn ynglŷn â phensiynau, cadarnhawyd mai'r Awdurdod yw'r corff sy'n gyfrifol am y pensiynau, ac felly mae cyfanswm yr ymrwymiad pensiynau fel yr oedd pethau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi cael ei gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Fodd bynnag, mae'r gost flynyddol wirioneddol i'r Awdurdod yn seiliedig ar ganran o gyflog y gweithiwr sy'n cael ei dalu i gronfa bensiwn, ac o ran cynllun y Diffoddwyr Tân, mae'n gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i 'ychwanegu' at unrhyw ddiffyg sydd yng Nghronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân sy'n cael ei weinyddu gan yr Awdurdod. Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at dudalen 56 o'r cyfrifon lle gellid cael manylion am y gronfa.

4.7 Roedd yr Aelodau wedi cael copïau o'r llythyr sylwadau; un llythyr sylwadau at yr Archwilydd Penodedig i gefnogi barn yr Archwilydd Penodedig ar y datganiad o gyfrifon, sef Swyddfa Archwilio Cymru yn yr achos hwn. Roedd y llythyr ychwanegol yn un o ofynion y Safonau Archwilio sef bod angen i KPMG gael sylwadau gan yr Awdurdod yn cefnogi eu barn archwilio ac wedi ei gyfeirio at yr Archwilydd Penodedig.

4.8 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig 2010-11, a chydnabod y Llythyrau Sylwadau i'w hanfon at yr Archwilwyr Allanol.**

5 RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio gan ei fod yn un o ofynion Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf a'r Cod Ymarfer ar Reoli'r Trysorlys bod y gorchwyl o fonitro gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cael ei ddirprwyo i gorff cyfrifol, ac mewn perthynas â'r Awdurdod, y Pwyllgor Archwilio sydd wedi cael y cyfrifoldeb hwnnw.

5.2 Cafodd Strategaeth 2011-12 ei chymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod ym Mawrth 2011, ond roedd benthyciadau newydd a newidiadau i'r Dangosyddion Darbodus wedi digwydd ers y cyfarfod hwnnw. Darparwyd gwybodaeth gan Sandra Forrest ynglŷn â'r newidiadau, ac esboniodd fod Sector, sef yr Ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys, wedi argymell bod yr Awdurdod yn parhau gyda'r benthyca tymor byr cyhyd â bod hynny o fewn y terfynau sydd yn y strategaeth gymeradwyedig. Oherwydd yr hinsawdd economaidd, mae'r sefydliadau sydd ar restr partïon i gontract yn cael eu monitro'n agos, a rhoddir gwybod yn ddyddiol i'r Awdurdod am unrhyw newid mewn graddiad.

5.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig sydd yn yr adroddiad;**

**(ii) nodi'r partïon i gontract buddsoddi fel sydd yn yr adroddiad; a**

**(iii) nodi'r benthyciadau newydd.**

6 Y DIWEDDARAF GAN Y TÎM ARCHWILIO MEWNOL

6.1 Rhoddodd Keith Williams y diweddaraf am waith y tîm archwilio mewnol. Roedd yr archwiliad Rhyddid Gwybodaeth, a'r archwiliad dilynol, wedi ei gwblhau. Roedd rhagor o archwiliadau dilynol i gael eu cynnal yn Ionawr. Roedd Rheolaeth y Fflyd wedi ei archwilio dros gyfnod o 10 niwrnod, ac roedd yr adroddiad wrthi'n cael ei ysgrifennu.

6.2 Daeth i'r amlwg fod contractwr allanol a oedd yn gweithio i'r Gwasanaeth wedi bod yn hawlio ceisiadau twyllodrus ar gytundebau eraill. Bydd y Tîm Archwilio yn ymchwilio i bob cais a wnaed i'r Gwasanaeth Tân ac Achub, ac felly ni chaiff yr archwiliad o'r storfeydd/ffreutur eu cynnal yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

7 Y DIWEDDARAF GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

7.1 Cyflwynodd Lisa Williams y llythyr a anfonwyd at y Prif Swyddog Tân ynghylch yr Asesiad Gwella: Archwiliad Dangosyddion Perfformiad. Atgoffwyd yr Aelodau bod yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn casglu ac yn cyhoeddi manylion ynglŷn â sut maent wedi perfformio mewn perthynas â chyfres o ddangosyddion perfformiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

7.2 Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal archwiliad dangosyddion perfformiad o'r 12 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol yn ystod Gorffennaf ac Awst pryd cafwyd bod pob un wedi eu datgan yn gywir. Fodd bynnag, cododd mater ynglŷn â digwyddiadau `dros y ffin', ond datryswyd hyn erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol.

7.3 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad a ddarparwyd.**